

Fy nhaith ddysgu Cerdd

Blwyddyn 8 Tymor 3



Uned ymholi: Sut mae cerddoriaeth y Blues wedi dylanwadu ar y gerddoriaeth rydym yn gwrando arni heddiw, a sut gallwn ddefnyddio ei nodweddion i berfformio, byrfyfyrio a chyfansoddi ein cerddoriaeth ein hunain?

Dysgu Blaenorol : Perfformio alawon a rhythmau syml ar yr allweddell.Cadw curiad cyson a pherfformio gydag eraill.Adnabod elfennau cerddorol sylfaenol gan gynnwys curiad, rhythm, traw, tempo a deinameg.Darllen nodiant cerddorol syml neu ddefnyddio enwau llythrennau'r nodau ar yr allweddell.Defnyddio technoleg gerddoriaeth ddigidol i greu neu recordio syniadau cerddorol syml.Cydweithio mewn perfformiadau grŵp bach.Gwrando ar gerddoriaeth o wahanol genres a thraddodiadau a mynegi barn amdani.

Yn ystod eich taith mi fyddwch yn …

Deall cefndir hanesyddol a diwylliannol cerddoriaeth y felan.

Archwilio tarddiad y Blues mewn cymunedau Affricanaidd-Americanaidd yn ne'r Unol Daleithiau.

Dysgu am ganeuon gwaith, ysbrydolion a galwadau'r caeau.

Gwrando ar enghreifftiau o gerddorion cynnar y Blues.

Adnabod nodweddion megis galw ac ymateb, emosiwn, ailadrodd a byrfyfyrio.

Cyflwyno strwythur y 12 Bar Blues.

Archwilio sut mae cordiau'n cael eu hadeiladu.

Dysgu nodau cordiau C, F a G mwyaf.

Cyflwyno rhifau Rhufeinig (I-IV-V).

Dadansoddi strwythur 12 Bar Blues.

Ymarfer newid cordiau'n gywir ac mewn amser.

Gwrando ar a dadansoddi In the Mood gan Glenn Miller.

Trafod y cysylltiadau rhwng y blues, jazz a cherddoriaeth swing.

Dysgu'r alaw fesul ymadrodd.

Dysgu'r patrwm llinell fas.

Ymarfer yn adrannau cyn cyfuno'r rhannau.

Cyfansoddi dros gyfeiliant 12 Bar Blues.

Defnyddio YuStudio i recordio, golygu a mireinio'r cyfansoddiad.

Yr ydym ar y daith hon oherwydd …

Ar y daith hon byddwn yn:

Datblygu sgiliau perfformio ar yr allweddell.

Dysgu sut mae cordiau'n gweithio mewn cerddoriaeth.

Defnyddio patrymau'r 12 Bar Blues i greu cerddoriaeth.

Datblygu hyder wrth fyrfyfyrio a gwneud dewisiadau cerddorol.

Defnyddio technoleg ddigidol (YuStudio) i gyfansoddi a recordio.

Datblygu creadigrwydd, cydweithio a gwerthfawrogiad o gerddoriaeth o ddiwylliannau gwahanol.

Erbyn diwedd y daith byddwch wedi symud o fod yn berfformiwr i fod yn gyfansoddwr ac yn gerddor creadigol sy'n gallu creu eich syniadau cerddorol eich hun.

Mae'r daith hon yn adeiladu ar eich gallu i:Chwarae alawon a rhythmau syml ar yr allweddell.

Cadw curiad cyson a pherfformio mewn ensemble.

Adnabod elfennau cerddorol megis curiad, rhythm, traw, tempo a deinameg.

Darllen nodiant syml neu enwau llythrennol nodau.

Defnyddio technoleg gerddorol ddigidol i recordio syniadau.

Gweithio'n effeithiol gydag eraill.

Gwrando ar gerddoriaeth a mynegi barn amdani.



Fy nhaith ddysgu Cerdd

Blwyddyn 8 Tymor 2



Uned ymholi: Sut gallwn ddefnyddio ein sgiliau wcylili a chanu i greu perfformiad ensemble caboledig a deniadol?

Dysgu Blaenorol Mae disgyblion eisoes wedi:Dal a chwarae'r wcylili yn gywir.Perfformio gan ddefnyddio patrymau strymio syml.Chwarae a newid rhwng cordiau sylfaenol (e.e. C, Am, F a G).Darllen siartiau cordiau a thaflenni geiriau caneuon.Cadw pwls a rhythm mewn perfformiadau ensemble.Canu alawon syml ac adnabod traw.Defnyddio geirfa gerddorol megis pwls, traw, rhythm, tempo a deinameg.Gwerthuso eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau eraill.

Yn ystod eich taith mi fyddwch yn …

Adolygu sgiliau craidd yr ukulele a chanu a gosod targedau personol.

Chwarae cordiau cyfarwydd yn gywir.

Newid cordiau mewn amser gyda'r gerddoriaeth.

Canu'n hyderus gan ddefnyddio osgo da.

Adolygu cordiau C, Am, F a G.

Dysgu cordiau newydd

Perfformio cân gyfarwydd fel dosbarth.

Ymarferion lleisiol yn canolbwyntio ar anadlu a thraw.

Hunanasesu a gosod targedau.

Perfformio patrymau strymio gwahanol yn gywir.

Cynnal tempo cyson.

Cydlynu canu a chyfeiliant.



Yr ydym ar y daith hon oherwydd …

Bydd y daith hon yn ein helpu i:

- Ddatblygu hyder fel perfformwyr.
- Gwella ein sgiliau technegol ar yr ukulele
- Canu gyda chywirdeb, mynegiant a rheolaeth.
- Cydweithio'n effeithiol ag eraill.
- Deall sut mae cerddoriaeth yn cyfathrebu syniadau ac emosiynau.
- Paratoi perfformiad terfynol o safon i gynulleidfa.

Cysylltiad â'r Datganiad Beth sy'n Bwysig

"Mae mynegi ein hunain drwy'r celfyddydau yn hanfodol i gyfathrebu dynol."

Drwy chwarae'r wcylili a chanu, byddwn yn datblygu ein gallu i gyfathrebu'n greadigol, gweithio gydag eraill a mynegi ein syniadau a'n teimladau drwy gerddoriaeth.

Cyflwyno patrymau strymio i lawr ac i fyny.

Ymarfer rhythmau syncopedig.

Perfformio caneuon gyda gwahanol batrymau cyfeilio.

Trafod sut mae rhythm yn effeithio ar hwyliau ac arddull cerddoriaeth.



Fy nhaith ddysgu Cerdd

Tymor 1 Blwyddyn 8



Uned ymholi: Sut mae cyfansoddwyr yn defnyddio ailadrodd i wneud cerddoriaeth yn gofiadwy?

Gwybodaeth a dysgu blaenorol:.

Archwilio elfennau cerddoriaeth megis curiad, rhythm, tempo, dynameg, traw, gwead a thôn. Perfformio patrymau rhythmig a melodig syml ar fysellfyrddau ac offer taro. Defnyddio nodiant graffig a nodiant staff sylfaenol. Cyfansoddi darnau syml gan ddefnyddio dolenni a phatrymau. Defnyddio technoleg gerddorol ddigidol i recordio a threfnu synau. Adnabod ailadrodd a chyferbyniad mewn strwythurau cerddorol. Datblygu sgiliau gwrando drwy wrando ar gerddoriaeth o Gymru a gweddill y byd.

Yn ystod eich taith mi fyddwch yn dysgu…

- Archwilio riffiau, bachau ac ostinatos enwog o amrywiaeth o genres.
- Deall y gwahaniaethau rhwng riff, bachyn ac ostinato.
- Perfformio riffiau poblogaidd ar yr allweddell.
- Datblygu cywirdeb rhythmig a thechneg bysedd.
- Dadansoddi sut mae ailadrodd yn cael ei ddefnyddio mewn cerddoriaeth boblogaidd a cherddoriaeth glasurol
- Cyfansoddi eich patrymau rhythmig a melodig eich hunain.

Datblygu Sgiliau

- Gwrando a gwerthuso.
- Perfformio ar fysellfwrdd.
- Chwarae mewn ensemble.
- Defnyddio geirfa gerddorol.
- Creadigrwydd ac arbrofi.

Cyfansoddi

- Defnyddio Yudstudio neu Noteflight i gyfansoddi alawon byr.
- Mewnbynnu cerddoriaeth gan ddefnyddio nodiant safonol.
- Arbrofi gyda thraw, rhythm a strwythur.
- Datblygu motiffau yn ymadroddion cerddorol estynedig.
- Creu cyfansoddiadau sy'n cynnwys riffiau, bachau neu ostinatos.

Datblygu Sgiliau

- Defnyddio meddalwedd nodiant.
- Cynllunio cyfansoddiadau.
- Golygu a mireinio gwaith.
- Gwerthuso a myfyrio.

Yr ydym ar y daith hon oherwydd …

Drwy gydol yr uned hon, byddwb yb datblygu fel:

- **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n meithrin sgiliau cerddorol newydd ac yn eu cymhwyso mewn perfformiad.
- **Cyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n arbrofi gyda syniadau cerddorol ac yn cyfansoddi darnau syml.
- **Dinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n gwerthfawrogi cerddoriaeth o ddiwylliannau, cyfnodau a thraddodiadau gwahanol.
- **Unigolion iach, hyderus** sy'n perfformio'n hyderus ac yn myfyrio ar eu cynnydd.

Y Celfyddydau Mynegiannol

- Archwilio, creu a pherfformio cerddoriaeth.
- Ymateb i waith cerddorol a'i ddadansoddi.
- Datblygu sgiliau cerddorol a pherfformio.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

- **Llythrennedd:** Defnyddio geirfa gerddorol a gwerthuso perfformiadau.
- **Rhifedd:** Deall rhythm, curiad, gwerthoedd nodau a chyfrif curiadau.
- **Cymhwysedd Digidol:** Defnyddio technoleg gerddorol Yustudio a bysellfyrddau digidol lle bo'n briodol.

Eich tasgau/ tasks:

Erbyn diwedd y daith ddysgu hon, bydd wch yn gallu: